



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR NADOLIG 2019 / *CHRISTMAS 2019 NEWSLETTER*



www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Llongyfarchiadau / Congratulations

Er i salwch wneud ei orau i amharu ar y cyngherddau, diolch o galon i bawb am eu gwaith caled, yn enwedig y disgyblion – arbennig.

Although illness risked impacting the concerts, a big thank you to everyone for their preparations, especially the pupils – excellent.

Nosweithi Rhieni / Parents' Evenings

Mae'r nosweithi rhieni ohiriwyd mis diwethaf i'r ail a'r drydedd wythnos ar ol dychwelyd yn y flwyddyn newydd ar Nos Llun 13^{eg} a'r 20^{fed} a nos Fawrth 14^{eg} a'r 21^{ain} o Ionawr. Diolch am eich amynedd. Mae Mrs Wakeham eisoes wedi cynnal cyfarfodydd gyda rhieni ei dosbarth hi. Daw gwybodaeth am union ddyddiadau ac amseroedd yn syth wedi'r Nadolig. Rydym hefyd wedi trefnu nosweithi ar gyfer diwedd tymor yr Haf.

The parents evenings postponed last month have been rescheduled to the second and third week of the new year on Monday 13th and 20th and Tuesday 14th and 21st of January. Many thanks for your patience. Mrs Wakeham has already held meeting with parents from her class. Exact dates and time information will follow immediately after Christmas. Meetings have also been arranged for the end of the summer term.

Staff / Staff

Pob lwc i Mrs Elin Wakeham wrth gychwyn ar ei y swydd fel pennaeth ar Ysgol Gymraeg Bryn y Môr, Abertawe ym mis Ionawr. Dymuniadau gorau hefyd i Mr Arwel Owen pan gychwyn ei swydd fel dirprwy brifathro yn yr ysgol ym mis Ionawr. Estynnwn groeso hefyd i Miss Emma Collingbourne a Miss Siwan Mathews fydd yn ymuno gyda ni fel cynorthwyrwyr addysgu ym mis Ionawr. Hoffem groesawi'n ôl Miss Alice Davies yn dilyn ei chyfnodau mamolaeth. Ym mis Ionawr, fe fydd Miss Davies a Mrs Siân Richards yn addysgu Blwyddyn 3 a 4. Dymuniadau gorau i chwi eich dau. Bydd Mrs Caitlin Hogarth yn parhau i addysgu Blwyddyn 3. Nid yw Mrs Lewis Jones yn parhau'n hwylus. Fe fydd Miss Stephanie Davies yn parhau i addysgu'r dosbarth y tymor nesaf.

We extend the best of luck to Mrs Elin Wakeham who will take up her role as head teacher at Ysgol Gymraeg Bryn y Môr, Swansea in January. Best wishes to Mr Arwel Owen when he commences his role as deputy headteacher in January. We also welcome Miss Emma Collingbourne and Miss Siwan Mathews who will be joining us as teaching assistants in January. We would like to welcome back Miss Alice Davies following her maternity leave. In January, Miss Davies and Mrs Siân Richards will teach Year 3 and 4. Best wishes to both. Mrs Caitlin Hogarth will continue to teach Year 3. Mrs Lewis Jones remains unwell. Miss Stephanie Davies will continue teaching the class next term.

Prosiect Gweithiwr Chwarae Cymunedol / Community Playworker Project

Newyddion gwych!! Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais i dderbyn Gweithiwr Chwarae Cymunedol. Llwyddodd Adran Chwarae CBSCNPT i ennill arian gan LEADER, grant Ewropeaidd a ledaenwyd gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn un o bedair o ysgolion gwledig a ddewiswyd i gymryd rhan yn y prosiect peilot. Byddwn yn derbyn gweithiwr chwarae tan fis Gorffennaf 2020 a fydd yn gweithio gyda'r plant a gwella cyfleoedd chwarae yn yr ysgol. Gobeithiwn y bydd y gweithiwr yn cychwyn yn fuan yn y flwyddyn newydd - byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi am y prosiect trwy gylchlythyrau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Good news!! The school has been successful in our application for a Community Playworker. The Play Department at NPTCBC successfully obtained funding from LEADER, a European grant disseminated by Welsh Government to improve outcomes and services in rural areas. We were one of four rural schools picked to take part in the pilot project which will see a playworker join us until July 2020 to work with the children and improve play opportunities at the school.

We hope that the play worker will be in place in early in the new year - we will keep you updated about the project via newsletters and social media posts.



Gwasanaethau Dosbarth / Class Assemblies

Gan y byddwn yn colli mynediad i ran isaf safle'r ysgol (gan gynnwys y gampfa) o fis Ionawr, bydd lle o fewn yr ysgol yn brin ofnadwy. Yn anffodus, oherwydd hyn fe fydd yn rhaid i ni ohirio gwasanaethau rhieni am y ddau dymor nesaf. Gobeithiwn fod mewn sefyllfa i ailgychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. *As we will be losing access to the lower part of the school site (including the gym) from January, space is going to be at a premium. Unfortunately, we will have to postpone parent assemblies for the next two terms. We hope to be in a position to recommence later next year.*

Gwelliannau i'r adeilad / Building Improvements

Mae'r contractwyr (WRW) wedi cychwyn ar y gwaith adeiladu yn yr ysgol. Mae'r gwaith wedi'i rannu'n ddau gam.

Cam 1 fydd y gwaith paratoi ym mhen uchaf yr ysgol i greu lle dros dro ar gyfer y Dosbarth Meithrin (Mrs Evans), y Dosbarth Derbyn (Mrs Jones / Morgan) a'r Cylch (toiledau addas ac ati).

Cam 2 fydd y prif waith adeiladu a fydd yn cynnwys:

- dymchwel yr hen ystafelloedd newid ac adeiladu estyniad ar gyfer dwy ystafell ddosbarth ychwanegol
- creu uned cyn ysgol bwrpasol a dosbarth meithrin sylweddol fwy
- adnewyddu a gwella'r gampfa ac adleoli'r dderbynfa a'r brif fynedfa i ardal y gampfa.

Mae Cam 1 eisoes ar y gweill a Cham 2 wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau Chwefror. Bydd angen i'r Dosbarth Meithrin (Mrs Evans), y Dosbarth Derbyn (Mrs Jones / Morgan) a'r Cylch adleoli i ystafelloedd dosbarth ar ben uchaf erbyn diwedd mis Ionawr.

Fe fydd Cam 2 yn effeithio i wahanol raddau ar bawb. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn gweithio gyda'r contractwyr i gwblhau'r cynlluniau a'ch diweddarau'n llawn o'r trefniadau fydd angen ar gyfer mis Chwefror. Rydym wedi pennu nos Fercher, Chwefror 5^{ed} am 3:30yp i rannu'r trefniadau gyda chi. Gobeithiwn gael cynrychiolwyr y contractwyr a'r cyngor yn bresennol.

The contractors (WRW) have commenced working at the school. The work will be split into two phases.

Phase 1 will be the preparatory work at the upper end of the school to create temporary space (for the Nursery Class (Mrs Evans), the Reception Class (Mrs Jones / Morgan) and the Cylch (suitable toilets etc.).

Phase 2 is the main construction work and will entail:

- *demolishing the old changing rooms and building an extension for two extra classrooms*
- *creating a purpose built pre school unit and a significantly larger nursery class*
- *renovating and improving the gym and the relocation of the reception and main entrance to the gym area.*

Phase 1 has already commenced with Phase 2 planned for early February. It is likely that the Nursery Class (Mrs Evans), the Reception Class (Mrs Jones / Morgan) or the Cylch will need to move to classrooms at the upper end of the school by the end of January.

Phase 2 will impact on everyone in one way or another. Over the coming weeks we'll be working with the contractors to try to finalise plans and update you fully of the new arrangements needed for February. We've arranged a meeting on Wednesday 5th February at 3:30pm to outline the arrangements with parents. We hope that representatives of from the contractors and the council will also be present.

Fforwm Rieni / Parents Forum

Mae'r ysgol yn parhau i baratoi tuag at y cwricwlwm newydd. Hoffai'r tim arweinyddol gwrdd â rhieni i gywain eu barn am newid fformat a chynnwys adroddiad blynyddol disgyblion. I'r perwyl hwn, rydym wedi trefnu Fforwm Rieni ar nos Fawrth Ionawr 28^{ain} am 3:30yp yn llyfrgell yr ysgol (neu'r ystafell staff dros dro). Bydd staff wedi'u trefnu i gynnig gofal plant am gyfnod y cyfarfod a sicrhewn na fydd yn para fwy na 30-45 munud. Os yw'n llwyddiannus, gobeithiwn allu trefnu cyfarfodydd lled rheolaidd o'r fforwm.

The school is continuing its preparations towards the new curriculum and the leadership team would like to meet with parents to canvass their views and thoughts on changing the format and content of the annual pupil report. To that end, we have organised a Parents' Forum on Tuesday January 28th at 3:30pm in the school library (or temporary staff room). Staff will be available to offer childcare for the duration of the

meeting and we will ensure that it lasts no longer than 30-45 minutes. If successful, we hope to organise fairly regular meetings of the forum.

HMS / INSET

Mae'r diwrnodau HMS am weddill y flwyddyn academaidd nesaf isod. Cofiwch hefyd, fod Gŵyl Banc Calan Mai'r flwyddyn nesaf wedi'i symud i ddydd **Gwener Mai 8^{fed} 2020**.

INSET days already planned for remainder of the academic year are listed below.

*Also, a reminder that next year's May Day Bank holiday has been moved to **Friday 8th May 2020**.*

Dydd Iau, Chwefror 13^{eg} 2020 / *Thursday February 13th 2020*
Dydd Gwener, Chwefror 14^{eg} 2020 / *Friday February 14th 2020*
Dydd Gwener, Gorffennaf 17^{eg} 2020 / *Friday July 17th 2020*
Dydd Llun, Gorffennaf 20^{fed} 2020 / *Monday, July 20th 2020*

Clybiau Allgyrsiol / After School Clubs

Bydd y clybiau allgyrsiol yn ail gychwyn yn y flwyddyn newydd ar yr wythnos sy'n cychwyn yr **28^{ain} o fis Ionawr**. I'n galluogi i gynnal ystod y clybiau, byddwn yn codi £1 y pen am bob clwb.

*Clubs will be restarting in the New Year on the week commencing **28th January**. To enable us to maintain the range of clubs, we will be charging £1 per head per club.*

Nos Fawrth / Tuesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 1 a 2) / *Games Club (Yrs 1 and 2)*

Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

Nos Iau / Thursday Night

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15 ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.

The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.

Clwb Côr – Nos Fawrth / *School Choir – Tuesday 3:30pm – 4:30pm*

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

Os hoffech i'ch plentyn gychwyn gwersi offerynnol eleni, gadewch i ni wybod. Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthg offerynnau am ddim.

If you would like your child to take up instrumental lessons, please let us know. Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument.

Cyfraniad o £120 (£90 blwyddyn gyntaf) y flwyddyn / £3:15 yr wythnos /

Contribution of £120 (£90 first year) a year / £3:15 a week

Dydd Llun / *Monday* - Telyn / *Harp* (Miss Katie Bayliss)

Dydd Mawrth / *Tuesday* - Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Dydd Iau / *Thursday* - Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Gwener / *Friday* - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Cinio Ysgol / School Dinner

Bob blwyddyn mae'n rhaid i ni gyflwyno data i Llywodraeth Cymru ar gyfer ein cyllid yn y dyfodol. O'r data yma, mae'n amlwg nad yw pob teulu sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn cynnig amdano. Gallai hyn effeithio ar ein cyllid. Anogwn bob rhiant a allai fod yn gymwys i wneud cais hyd yn oed os ydynt yn parhau yn awyddus i dalu am bryd bwyd eu plant neu eu darparu â pheccyn bwyd. (plant 5 oed neu'n hŷn sy'n gymwys). Ymdrinnir â'r broses mewn ffordd hollol gyfrinachol. Os credwch fod gennych yr hawl i Brydau Ysgol am Ddim, gallwch ein helpu trwy wneud cais gan y gallai gael effaith ddramatig ar ein cyllid yn y dyfodol. Mae'r ffurflen gais ar gael trwy ddilyn y linc ganlynol (<https://www.npt.gov.uk/1317?lang=cy-gb>).

Every year we submit data that contributes in part to our future funding. From this data it is evident that not all families whose children are entitled to Free School Meals are applying. This could effect our funding.

We would encourage all parents who believe they may be eligible to apply even if you still wish to pay for your child's meal or supply them with a packed lunch. (Eligibility is for children of 5 years or older). All personal information regarding your child is dealt with in a completely confidential manner and this includes whether or not the child is entitled to Free School Meals. If you are entitled to Free School Meals then please help us by applying as it could have a dramatic effect on our future funding. The application form is available from the following link (<https://www.npt.gov.uk/1317>).

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi gyd / *Merry Christmas and a Happy New Year*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymorhau sydd i ddod ----->
A few dates for the terms ahead



Ysgol Gymraeg Pontardawe Dyddiadur Nadolig 2019 / *Christmas 2019 Diary*

Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 20 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 6 ^{ed} <i>End of Term – School closes on Friday, December 20th and will re-open on Monday, January 6th</i>	
Nos Llun 13 ^{eg} a'r 20 ^{fed} , Nos Fawrth 14 ^{eg} a'r 21 ^{ain} o Ionawr <i>Monday 13th and 20th and Tuesday 14th and 21st of January</i>	Nosweithi Rhieni – gwybodaeth i ddilyn yn syth wedi'r Nadolig <i>Parents Evenings – information to follow immediately after Christmas</i>
Dydd Gwener Ionawr 24 ^{ain} <i>Friday January 24th</i>	Cariad at Urdd - Diwrnod Gwisgo Coch, Gwyn a Gwyrdd i godi arian at y Gylch yr Urdd (£1 y pen) <i>Love for the Urdd – Pupils to wear Red, White and Green for the day ay to raise funds for the local Urdd. (£1 per pupil)</i>
Dydd Mawrth Ionawr 28 ^{ain} am 3:30yp <i>Tuesday January 28th at 3:30pm</i>	Fforwm Rhieni – Adroddiadau Blynyddol <i>Parent Forum – Annual Pupil Reports</i>
Dydd Mercher Chwefror 5 ^{ed} am 3:30yp <i>Tuesday February 5th at 3:30pm</i>	Cyfarfod i drafod trefniadau mynediad yn y gwaith adeiladu <i>Presentation on access arrangements during building work</i>
Dydd Iau Chwefror 13 ^{eg} <i>Thursday February 13th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Gwener Chwefror 14 ^{eg} <i>Friday February 14th</i>	HMS <i>INSET</i>
Hanner Tymor y Gwanwyn 15^{fed} – 23^{ain} Chwefror / <i>Spring Half Term 15th – 23rd February</i>	
Llun i Wener Chwefror 24 ^{ain} i'r 28 ^{ain} <i>Monday to Friday February 24th to 28th</i>	Bloc Nofio B5 <i>Y5 Swimming Block</i>
Dydd Gwener Chwefror 28 ^{ain} <i>Friday February 28th</i>	Dathliadau Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Ysgol <i>St David's Day Celebration and School Eisteddfod</i>
Llun i Wener Mawrth 2 ^{ail} i'r 6 ^{ed} <i>Monday to Friday March 2nd to 6th</i>	Bloc Nofio B6 <i>Y6 Swimming Block</i>
Dydd Mercher Mawrth 11 ^{eg} <i>Wednesday March 11th</i>	Eisteddfod Gylch yn YGG Gwauncaegurwen <i>Area Eisteddfod at YGG Gwauncaegurwen</i>
Dydd Sadwrn, Mawrth 28 ^{ain} <i>Saturday March 28th</i>	Eisteddfod Sir yn Theatr y Dywysoges <i>Regional Eisteddfod at the Princess Royal Theatre</i>
Prynhawn Mawrth, Mawrth 31 ^{ain} <i>Tuesday afternoon, March 31th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Adran Iau (1:30-5:00yp) <i>Key stage 2 pupil achievement open afternoon (1:30-5:00pm)</i>
Prynhawn Iau, Ebrill 2 ^{ail} <i>Tuesday, February 2nd</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Cyfnod Sylfaen (1:30-5:00yp) <i>Foundation Phase pupil achievement afternoon (1:30-5:00pm)</i>
Pasg – Cau ar ddydd Gwener, Ebrill 3 ^{ydd} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 20 ^{fed} <i>Easter – School closes on Friday, April 3rd and will re-open on Monday, April 20th</i>	
28 ^{ain} Ebrill i'r 5 ^{ed} o Fai 2020 <i>28th April to the 5th May 2020</i>	Profion Cenedlaethol (B2 – B6) <i>National Tests (Y2 – Y6)</i>
Dydd Gwener Mai 8 ^{fed} <i>Friday, May 8th</i>	Gwyl y Banc <i>Bank Holiday</i>
Dydd Iau Mai 21 ^{ain} <i>Thursday, May 21st</i>	Mabolgampau'r Ysgol (Meith 9:00yb, CS 10:30yb, CA2 1:15yp) <i>School Sports Day (Nursery 9:00am, FP 10:30am, KS2 1:15pm)</i>
Hanner Tymor y Sulgwyn 23^{ain} – 31^{ain} Mai / <i>Whitsun Half Term 23th – 31st May</i>	
Llun, i Wener Mehefin 1 ^{af} i'r 5 ^{ed} <i>Monday to Friday June 1st to 5th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Mercher i Wener Mehefin 3 ^{ydd} i'r 5 ^{fed} <i>Wednesday to Friday June 3rd to 5th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>
Dydd Iau Mehefin 11 ^{eg} <i>Thursday, June 11th</i>	B6 - Diwrnod Pontio Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Transition Day</i>
Llun, i Mercher Mehefin 23 ^{ain} i'r 25 ^{ain} <i>Monday to Wednesday June 23th to 25th</i>	B5 – Tridiau Sgiliau Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y5 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Skills Days</i>
Nos Lun 29 ^{ain} a Nos Fawrth 30 ^{ain} o Fehefin <i>Monday 29th and Tuesday 30th of June</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 3 ^{ydd} <i>Friday, July 3th</i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>

Nos Llun 6 ^{ed} a Mawrth 7 ^{fed} Gorffennaf <i>Monday 6th and Tuesday 7th of July</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 9 ^{fed} <i>Thursday, July 9th</i>	Cyngerdd Gadael Blwyddyn 6 (1:30yp) <i>Year 6 Leaver's Concert (1:30pm)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 10 ^{fed} <i>Friday, July 10th</i>	B6 - Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 - Language Charter Gig at YG Ystalyfera Bro Dur</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 17 ^{eg} <i>Friday, July 17th</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 22 ^{ain} <i>Monday, July 20th</i>	HMS <i>INSET</i>
Haf – Cau i ddisgyblion ar ddydd Iau, Gorffennaf 16^{eg} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mercher, Medi'r 2^{ail} <i>Summer – School closes for pupils on Thursday, July 16th and will re-open to pupils on Wednesday, September 2nd</i>	